O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 2223 (Cy.195)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref ac mae'n gymwys yng Nghymru.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008") drwy wneud darpariaeth i gynyddu lefel rhyddhad ardrethi i fusnesau bach rhwng 1 Hydref 2010 a 30 Medi 2011. Dim ond i gategorïau penodol o drethdalwr a gwmpesir gan Orchymyn 2008 y mae'r cynnydd hwn yn gymwys.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 2223 (Cy.195)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010

Gwnaed *4 Medi 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *8 Medi 2010*

Yn dod i rym *1 Hydref 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 43(4B)(b), 44(9), 143(1) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**):

Enwi, cychwyn, a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2010.

(1) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Hydref 2010.

(**1**) 1988 p.41. Cafodd adran 43 ei diwygio gan adran 117 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Atodlen 13 iddi (p.14); adran 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997 ac Atodlen 1 iddi (p.29); adran 127 o Ddeddf Gwasanaethau'r Post 2000 ac Atodlen 8 iddi (p.26); adrannau 1 a 3 o Ddeddf Ardrethu (Cyn Fangreoedd Amaethyddol a Siopau Gwledig) 2001 (p.14); adrannau 61, 63 a 64 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26); ac adran 1177 o Ddeddf y Dreth Gorfforaethau 2010 ac Atodlen 1 iddi (p.4). Mewnosodwyd adran 43(4B) gan adran 61 o Ddeddf. Cafodd adran 44 ei diwygio gan adrannau 139 a 194 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ac adrannau 5 a 12 iddi (p.42); gan adran 117 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ac Atodlen 13 iddi (p.14); a chan adran 61 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26).

(**2**) Breiniwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygiadau i Orchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008

2.—(1) Diwygir Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008(**1**) fel a ganlyn.

(2) Yn erthygl 11, cyn "Y swm o E", mewnosoder "Ac eithrio pan fo erthygl 11A(2) yn gymwys,".

(3) Ar ôl erthygl 11, ychwaneger—

"Y swm o E rhwng 1 Hydref 2010 a 30 Medi 2011

11A.—(1) Mae erthyglau blaenorol y Gorchymyn hwn yn ddarostyngedig i'r erthygl hon.

(2) Mae'r erthygl hon yn gymwys pan ddigwydd y dydd y codir y tâl arno ar ddyddiad yn y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Hydref 2010 ac sy'n gorffen ar 30 Medi 2011.

(3) Mae erthygl 7(ch) yn cael ei heffaith megis pe gosodid yn ei lle—

"(ch) bod gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy na £10,499 ond nid yn fwy na £11,000;".

(4) Nid oes i erthygl 9 unrhyw effaith.

(5) Y swm o E a ragnodir at ddibenion is-adran 44(9) o'r Ddeddf, pan fo'r amodau gwerth ardrethol diwygiedig neu'r amodau mangre gofal plant diwygiedig wedi'u bodloni a phan fo gwerth ardrethol yr hereditament—

(a) heb fod yn fwy na £6,000, yw 5,000,000;

(b) yn fwy na £6,000 a heb fod yn fwy na £12,000, yw, yn ddarostyngedig i baragraff (7), y swm a geir wrth rannu 6000 gyda'r ffigwr y deuir ato drwy dynnu 6000 o werth ardrethol yr hereditament a ddangosir yn y rhestr ardrethu annomestig leol am y diwrnod hwnnw.

(6) Mae symiau a gyfrifir o dan baragraff (5)(b) i'w cyfrifo hyd at dri phwynt degol yn unig—

(a) gan ychwanegu'r filfed ran pan fyddai yna (ar wahân i'r is-baragraff hwn) fwy na phump o ddeg-milfedi; a

(**1**) O.S. 2008/2770 (Cy.246) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2010/273 (Cy.36).

(b) gan anwybyddu'r deg-milfedi pan fyddai yna (ar wahân i'r is-baragraff hwn) bump, neu lai na phump o ddeg-milfedi.

(7) Yn yr erthygl hon—

(a) yr amodau gwerth ardrethol diwygiedig yw—

(i) nad yw gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy na £12,000;

(ii) nad yw'r hereditament yn hereditament a eithrir; a

(iii) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl;

(b) yr amodau gofal plant diwygiedig yw—

(i) bod yr hereditament yn cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion gwarchod plant neu i ddarparu gofal dydd gan berson wedi ei gofrestru o dan Ran XA o Ddeddf Plant 1989;

(ii) nad yw'r hereditament yn hereditament a eithrir;

(iii) bod yr hereditament yn cael ei feddiannu'n gyfan gwbl;

(iv) nad yw gwerth ardrethol yr hereditament yn fwy na £9,000; a

(v) bod y trethdalwr wedi rhoi hysbysiad i'r awdurdod bilio mewn cysylltiad â'r hereditament yn unol ag erthygl 10.".

Carl Sargeant

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

4 Medi 2010